gan Michael Mullett

Cyhoeddwyd yn *History Review* 2008

# John Calfin, Creu'r Diwygiwr


TopFoto.co.uk

*John Calfin, a aned Jean Cauvin, 1509-1564*

## Cyflwyniad

'Yr Holl Grefydd Gristnogol ym Mhob Un Rhan Ohoni'. Mae geiriau Calfin, a ddefnyddiwyd i nodi ei fwriad yn ei gampwaith *Christianae Religionis Institutio*, yn awgrymu cwmpas – a chyflawniad – ei uchelgais llenyddol ac addysgol. Ymddangosodd y gwaith yn gyntaf yn yr iaith ryngwladol, Lladin, ym 1536 dan y teitl *Christianae Religionis Institutio* ('Cyfarwyddyd ar gyfer y Ffydd Gristnogol'), a'r gyfrol hon oedd y cerbyd a gludodd cyfundrefn athrawiaethol Calfin ar hyd a lled Ewrop a thu hwnt. Ochr yn ochr â'r *Institutio*, Calfin hefyd oedd awdur cyfres o ddarnau diwinyddol hynod o ddylanwadol a dadleuol a sylwebaethau estynedig ar yr Ysgrythurau. Fel yn achos Martin Luther (1483-1546), man cychwyn dylanwad enfawr ac arhosol Calfin oedd ei gynnyrch llenyddol toreithiog.

Ategwyd etifeddiaeth lenyddol John Calfin gan fodel o eglwys a chymdeithas a grëwyd ganddo rhwng 1541 a'i farwolaeth ym 1564 yng Ngenefa ac a efelychwyd dros genedlaethau mewn ardaloedd pwysig o Ewrop ac yng Ngogledd America fel gweithrediad o gynllun Duw ar gyfer y ddynoliaeth. Fel y dywedodd y diwygiwr Calfinaidd o'r Alban John Knox (c.1513-72), Genefa dan Calfin oedd 'yr ysgol fwyaf perffaith i Grist a welwyd ar y ddaear ers dyddiau'r Apostolion'. Ac roedd Genefa dan Calfin yn 'ysgol' nid yn unig yn yr ystyr ei bod yn gynllun moesegol i'w atgynhyrchu mewn llefydd eraill – yn Lloegr a New England, yr Iseldiroedd a'r Alban yn ogystal â mannau eraill – ond hefyd yn yr ystyr mwy llythrennol o safle i gyflenwi addysg.

Roedd Academi Genefa, a sefydlwyd ym 1559, yn cynnwys y schola publica (Calfin oedd ei hathro diwinyddiaeth cyntaf), oedd yn gorff yn gysylltiedig â phrifysgol a gynhyrchai llif o weinidogion Calfinaidd i fynd ag efengyl y diwygiwr i'r byd, yn bennaf oll at ei gariad mawr, Ffrainc. Yno, yn ystod y Rhyfeloedd Crefydd erchyll rhwng

1562 a 1598, cafodd Cristnogaeth Calfin ei chyfle gorau i gael ei sefydlu fel ffydd swyddogol un o diroedd Catholig hynaf Ewrop. Yr hyn a grëwyd gan system ideolegol Calfin – 'Calfiniaeth' – oedd cod moesol llym, ynghyd â fformiwlâu ar gyfer gwrthiant a gwrthwynebiad gwleidyddol (yn Ffrainc, yr Alban, Lloegr ac America), ysbrydoliaeth bosibl ar gyfer arloesi economaidd cyfalafol, ac yn bennaf oll, creadigaeth grefyddol hynod o rymus, cydlynol a gwydn.

## Calfin: Bywgraffiad Cryno

Beth felly oedd gwreiddiau a chyfansoddiad yr unigolyn rhyfeddol o greadigol hwn? Fel y diwygwyr mawr eraill yn yr unfed ganrif ar bymtheg, Luther a'r diwygiwr o'r Swistir Huldreich Zwingli (1484-1531), hanai Calfin o blith y 'werin' oedd yn eu gwella eu hunain, teuluoedd oedd yn ystyried addysg – yn enwedig pan oedd yn arwain at yrfa yn yr Eglwys – yn allweddol i ddyrchafiad cymdeithasol. Roedd Gérard Cauvin, i roi iddo ei gyfenw heb ei Ladineiddio, yn gyfreithiwr yn ninas gadeiriol Noyon, yng ngogledd ddwyrain Ffrainc, a golygai ei waith ei fod yn meithrin perthynas broffesiynol â'r esgob a chlerigwyr yr eglwys gadeiriol. Ganwyd ei ail fab, Jean (John) yn Noyon ym mis Gorffennaf 1509. Bu farw mam John pan oedd yn blentyn bach. Drwy ei gysylltiadau â sefydliad yr eglwys gadeiriol, llwyddodd Gérard i sicrhau segurswydd glerigol gyfforddus i John, ac yntau'n 12 oed. Gallai'r ffaith fod addysg un o feirniaid mwyaf llafar Catholigiaeth anniwygiedig wedi'i hariannu drwy lygredd trwsgl cyfundrefn eglwysig Ffrainc daro rhai pobl yn eironig.


Roedd cymeriad a nodweddion Calfin – ei ddifrifoldeb moesol, ei gwrteisi diymffrost, ei feddwl cyfreithiol, ei dueddfryd dilechdidol, ei ddirnadaeth ddeheuig o'r iaith Ladin a'r clasuron – oll yn gynnyrch ei ffurfio a'i addysg gynnar, felly mae'n werth ailedrych ar y prosesau hyn er mwyn gweld y plentyn a'r llanc a dyfodd i greu'r dyn.

Cam allweddol, ym 1520 neu 1521, oedd iddo symud i'r hyn oedd ar y pryd yn brifysgol fwyaf nodedig Ewrop, y 'Sorbonne' ym Mharis. Aeth Calfin yno gyda thri llanc o'r teulu uchelwrol lleol de Hangest, oedd yn hynod o flaenllaw ym mywyd yr Eglwys yn esgobaeth Noyon. Roedd gan y tylwyth hwn hefyd gysylltiadau uchelwrol â byd gwleidyddiaeth llys Ffrainc ac yn dilyn cyfnod yn aros gyda'r teulu magodd Calfin sglein a moesau uchelwrol. Ar yr un pryd, o fewn y rhwydwaith nawdd pwerus hwn mae'n bosibl fod y Calfin ifanc wedi dechrau dringo'r ysgol a allai ei gludo i'r uchelfannau: nid gŵr cyffredin ar y cyrion oedd hwn.

Dan gyfarwyddyd y gramadegwr enwog Mathurin Cordier (1479-1564), ym Mharis dysgodd Calfin Ladin cain a byddai'n ei defnyddio'n effeithiol, yn bennaf drwy ysgrifennu'r *Institutio*, a does dim amheuaeth fod ei arhosiad a'i astudiaethau yn amgylchedd mynachaidd Collège Montaigu y Brifysgol, gyda'i drefniadau dietegol ac ymchwiliol llym, wedi dylanwadu'n ffurfiannol ar y gŵr a fyddai'n datblygu'n blismon moesol dinas Genefa. Yn y cyfamser, drwy ei astudiaethau ar gyfer ei radd Baglor yn y Celfyddydau, daeth ar draws dull Sgolastig Paris o ddadlau llafar, gan greu meddylfryd y dadlau dilechdidol trylwyr a welir yn ei weithiau. Prif reolwr ei astudiaethau, serch hynny, oedd ei dad, gŵr yr oedd ei agwedd at addysg i'w gweld yn gwbl iwtilitaraidd, wedi'i gyrru gan angerdd am lwyddiant bydol, felly yn sgil anghydfod gyda'r Eglwys yn Noyon, ynghyd â darganfod bod ei astudiaethau cyfreithiol yn cynnig 'llwybr sicrach at gyfoeth ac anrhydedd' na bwriad ei fab i astudio diwinyddiaeth, arweiniwyd camau'r mab at gyrsiau yn y gyfraith, ym Mhrifysgolion Bourges ac Orléans, dan ddau o athrawon eithriadol yr oes. Unwaith eto roedd yr effeithiau tymor hir yn bwysig, nid yn unig drwy ffurfio eglurder meddwl y cyfreithiwr yng Nghalfin, ond hefyd drwy sicrhau mai ef fyddai trefnydd a deddfwr 'ei Genefa ef' yn ddiweddarach. Yn hollbwysig hefyd yn ninas Bourges, astudiodd Groeg, iaith yr Hen Destament.

O'r diwedd, pan fu farw Gérard Cauvin (wedi'i esgymuno o'r Eglwys) ym 1531, er na roddodd y gorau i'r gyfraith yn llwyr, roedd ei fab yn rhydd i symud at y gangen o astudio yr oedd yn ei ffafrio fwyaf, rhywle rhwng y clasuron ac athroniaeth, yn y maes llachar a heulog hwnnw a adwaenir fel dyneiddiaeth, cwlt y clasuron Groeg a Lladin hynafol. Ym 1532 cyhoeddodd Calfin sylwebaeth ddysgedig ar waith yr athronydd Rhufeinig Stoig hynafol Lucius Annaeus Seneca (4 B.C- 65 A.D.), y *De Clementia*, 'Yn Ymwneud â Thrugaredd'. Roedd hwn yn wir yn bwnc addas i rywun oedd â'i fryd ar y gyfraith, gan fod angen y rhinwedd hon ar gyfreithwyr a barnwyr, ond roedd y gwaith ysgolheigaidd hwn yn gosod Calfin ymhlith y dyneiddwyr llenyddol yn hytrach na'r cyfreithwyr, tra bo cysylltiadau honedig Seneca gyda Christnogaeth gynnar hefyd wedi'u dwyn i sylw'r ysgol gynyddol o ddyneiddwyr Cristnogol. Oherwydd nid oedd modd gwahanu dyneiddiaeth ei hun, yn enwedig yn Ffrainc, oddi wrth y diddordebau crefyddol oedd wedi tra-arglwyddiaethu cymaint dros fywyd cynnar Calfin. Yn wir roedd llawer a ystyriai adfywio'r ieithoedd hynafol, Groeg yn bennaf, yn allweddol ar gyfer diwygio'r Eglwys mewn modd angenrheidiol: gyda chyhoeddi golygiad o'r Testament Newydd yn yr iaith Groeg wreiddiol gan Desiderius Erasmus (c.1469-1536) ym 1516, rhoddwyd siarter i'r meddylwyr dyneiddiol Cristnogol ar gyfer dychwelyd yr Eglwys i'w hegwyddorion dilychwyn ei hun. Tra bo dyneiddiaeth Gristnogol yn ysbrydoli diwygwyr Catholig Ffrengig megis cyfieithydd y Beibl Jacques Lefèvre d'Etaples (1450?-1537) ac esgob diwygiol esgobaeth Meaux, Guillaume Briçonnet (1470-1534), roedd Ffrainc ar ddechrau'r 1530au hefyd yn ferw o'r ffrydiau mwy radical o adnewyddu crefyddol a ddeuai o'r Almaen gan alw ar frys am symud i ffwrdd o Eglwys Rufain.

Ar ryw bwynt anhysbys


·VI· January 1538

CHRISTIA
NAE RELIGIONIS INSTI-
tutio, totam ferè pietatis summã, & quic
quid est in doctrina salutis cognitu ne=
cessarium, complectens : omnibus pie=
tatis studiosis lectu dignissi=
mum opus, ac re
cens edi=
tum.

PRAEFATIO AD CHRI
stianißimum REGEM FRANCIAE, qua
hic ei liber pro confeßione fidei
offertur.

IOANNE CALVINO
Noviodunensi autore.

BASILEAE,
M. D. XXXVI.

The Granger Collection / TopFoto

*Tudalen deitl y llyfr 'Cyfarwyddyd ar gyfer y Ffydd Gristnogol', 1536*

ddechrau'r 1530au – mae'r union ddyddiad yn amhosibl ei bennu – symudodd Calfin i'r cylchoedd radical hyn. Er nad oes dim drwgdybiaeth o 'heresi' yn ei olygiad o *De Clementia*, erbyn 1533, pan gafodd ei gysylltu â storm athrawiaethol yn codi o'r anerchiad hereticaidd honedig a roddwyd gan ei gydweithiwr, rheithor newydd y Brifysgol, Nicholas Cop, roedd Calfin wedi symud yn bendant i'r ochr arall. Roedd wedi profi'r hyn a alwai, yn ei ddarn hunangofiannol nodweddiadol gryno yn ei 'Sylwebaeth ar y Salmau' (1557), yn 'dröedigaeth sydyn', lle'r oedd yr Hollalluog wedi 'tawelu a gwneud yn addysgadwy, calon a oedd, o ystyried fy oed, yn rhy galed o lawer mewn materion' megis 'ofergoel Pabaeth': roedd felly wedi ymuno â'r rheng o bobl a gâi eu grwpio gyda'i gilydd yn Ffrainc fel 'Lutheriaid'. Fodd bynnag, yn wyneb y diddordeb ariannol a gwleidyddol cryf oedd gan frenhiniaeth Ffrainc dan Francis I (1494-1547) mewn cadw status quo Eglwys Ffrengig ddirywiedig, roedd rhaid i feirniaid o'r fath gael eu gwasgaru, a chafodd Calfin gyfnod o ddwy flynedd fel dyn ar ffo. Tua diwedd y cyfnod hwn fel ffoadur cydwybodol, ym mis Mawrth 1536, yn ninas Basel yn y Swistir, cyhoeddodd y casgliad o'i athrawiaethau Diwygiedig, yr *Institutio*.

## Y *Christianae Religionis Institutio*

Bydd archwiliad cryno o'r *Institutio* sy'n dyddio o 1536 yn ein galluogi i ddehongli ei neges athrawiaethol a hefyd canfod lle mae'n sefyll yng nghyd-destun datblygiad deallusol cyffredinol John Calfin. Mae'r gyfrol yn dechrau gyda'r hyn sy'n ymddangos yn ddirgelwch. O ystyried difrifoldeb cynyddol yr erlid yr oedd anghydffurfwyr yn ei ddioddef yn Ffrainc yn dilyn yr hyn a ystyriwyd gan yr uniongred fel ymosodiad cableddus ar yr Offeren Gatholig ym mis Hydref 1534, mae'n ymddangos yn rhyfedd bod un o'r anghydffurfwyr hynny'n agor ei waith gyda 'Rhagair i Frenin mwyaf Cristnogol Ffrainc, yn cynnig iddo'r gyfrol hon fel cyffesiad o ffydd gan yr awdur, Jean Calfin o Noyon'. Fodd bynnag, cyflwynwyd yr *Institutio* nid yn gymaint fel apologia gan sect yn ceisio goddefgarwch ond fel crynodeb addysgu ffydd Gristnogol normadol, yn argymelliad i 'Frenin Cristnogol': 'Dysgeidiaeth Sylfaenol y Grefydd Gristnogol, yn cynnwys duwioldeb bron yn gyfan gwbl a'r hyn sydd angen ei wybod am athrawiaeth gwaredigaeth', canllaw i'r nefoedd i gredinwyr difrifol ac anesmwyth yn enwedig ymysg 'ein Ffrancwyr ni ein hunain'.

Beth yw'r cyfiawnhad felly dros ystyried gwaith arloesol Calfin yn waith a fyddai'n uno neu hyd yn oed yn waith eciwmenaidd o gonsensws Cristnogol – ar hyd y llinellau a osodir ym mroliant y gwaith ei hun? Mae'n wir fod hyd yn oed yr awdurdodau y mae'n eu dyfynnu – er enghraifft nid yn unig ffynhonnell diwinyddiaeth ganoloesol, Sant Augustine (354-430), ond disgybl Augustine hefyd, yr arweinydd mynachaidd Sant Bernard o Clairvaux (1190-1253) – yn rhoi'r argraff fod y gwaith yn rhyw fath o glasur pan-Gristnogol, yn 'gatholig' yn ystyr ehangaf y gair. Ond nid felly y mae, oherwydd er ei fod yn wir fod yr *Institutio* yn ailddatgan set o gredoau Cristnogol craidd, megis safle canolog yr Ymgnawdoliad ac aberth cymodol Crist, wrth ysgrifennu am grŵp arall o faterion cysylltiedig – sofraniaeth lwyr, absoliwt Duw, llygredigaeth y ddynoliaeth a chaethiwed yr ewyllys ddynol, sicrwydd rhagordeiniad – roedd Calfin yn ysgrifennu fel ymlynwr ymroddedig i'r Diwygiad Protestannaidd a lansiwyd gan Luther yn erbyn Eglwys Gatholig Rhufain. Mae'n wir nad oedd yr Eglwys eto wedi siarad yn gyhoeddus am y materion uchod, a byddai'n gwneud hynny yng Nghyngor Trent (1545-63), pan bwysleisiwyd y cyfraniadau yr oedd bodau dynol, wrth ymarfer ewyllys rydd, yn eu gwneud i'w hiachawdwriaeth eu hunain. Ond

roedd Luther eisoes, ym 1525, drwy ymosod ar Erasmus, oedd yn Gatholig, wedi mynegi ei farn ar y pwnc: roedd ewyllys dyn mewn gefynnau a'n rhagordeiniad i fywyd tragwyddol neu farwolaeth yn amhosibl ei wadu. Mewn modd grymus, clir a diamwys, cefnogodd Calfin ei hun, hyd yn oed yn yr argraffiad cyntaf hwn o'r *Institutio*, y ddealltwriaeth 'Lutheraidd' hon o'r materion dan sylw, a phe baem yn dethol y cwestiwn hwn o ragordeiniad (neu 'etholiad') fel y mater 'dŵr glas' oedd yn gwahanu'r Catholigion oddi wrth athrawiaeth y Diwygiad, byddem ni'n gweld Calfin yn gadarn ar lan Protestannaidd y ffrwd honno:

> "Rhagordeiniad yw'r hyn y galwn ordinhad tragwyddol Duw, a thrwy hyn y mae Ef wedi ei bennu ei hun yr hyn y byddai Ef yn ei ddymuno ar gyfer pob unigolyn dynol. Oherwydd nid ydynt wedi'u creu oll ag un ffawd; ond caiff bywyd tragwyddol ei ragordeinio i rai, a damnedigaeth dragwyddol i eraill. Dywedwn felly fod pob dyn, gan ei fod wedi'u greu i'r naill neu'r llall o'r dibenion hyn, wedi'i ragordeinio naill ai ar gyfer bywyd neu farwolaeth."

Byddai Trent yn anghytuno â'r cyfryw farn am Dduw, y ddynoliaeth a'u rhyngberthynas, a byddai Eglwysi'r Diwygiad newydd yn ei chefnogi. Roedd yr *Institutio*, oedd yn dilyn diwyg 'Catecism Byr' Luther yn 1529, yn dangos mai Calfin oedd yr ail o efaill-golofnau'r Diwygiad Protestannaidd.

## Dinas Duw? – Genefa Calfin

Fel dyn na ellid ei ystyried yn unrhyw beth ond dyn y Diwygiad y croesawyd Calfin i ddinas Genefa. Ar ddamwain y cyrhaeddodd yno, oherwydd ar ôl cyfnod byr mewn llys sympathetig yn Ferrara yn yr Eidal, ac ymweliad sydyn, maddeuol â Noyon i ddelio â materion teuluol, roedd Calfin mewn gwirionedd yn dymuno sefydlogi ei alltudiaeth orfodol o Ffrainc yn y ddinas Brotestannaidd yn nwyrain yr Almaen, Strassburg, ond fe'i ataliwyd rhag gwneud hynny gan ryfel rhwng yr Habsburgiaid a Ffrainc, a gaeodd y ffin rhwng Ffrainc a'r Almaen. Felly, ag yntau wedi'i ddargyfeirio i Genefa, canfu Calfin ddinas yn cynnwys o ddeutu 10,000 o bobl, yn bennaf crefftwyr mewn galwedigaethau megis tecstilau, a lleoliad a oedd yn ystod y cyfnod cyn i Calfin gyrraedd, wedi ennill rhyddid dwbl – annibyniaeth wleidyddol oddi wrth Ddugaeth gyfagos Savoy, a'i gwnaeth yn wladwriaeth hunanlywodraethol, a rhyddid eglwysig oddi wrth yr Eglwys Gatholig, drwy fabwysiadu, ym 1535, y Diwygiad. Asiant y diwygiad hwnnw oedd cyn-gydnabod i Briconnet ym Meaux, y Ffrancwr Guilliaume Farel (1489-1565), a ddisgrifiwyd gan Calfin fel gŵr oedd yn 'llosgi … ag angerdd rhyfeddol i hyrwyddo'r Efengyl' ac a aeth ati ar unwaith i recriwtio'r ymwelydd i ymuno â thîm y diwygiad, gan roi dadl nad oedd Calfin, a gredai'n gryf yn rhagluniaeth Duw, yn gallu ei wrthod – y byddai'r Hollalluog yn 'melltithio' unrhyw gilio gan y gŵr dysgedig hwn i 'orffwys a distawrwydd'. Er hynny, cafwyd cydnabyddiaeth o rôl Calfin fel ysgolhaig yn ei benodiad yng Ngenefa ym mis Medi 1536 i swydd academaidd 'Darllenydd yr Ysgrythur Sanctaidd'. Wedi dweud hynny, roedd cymaint o waith gweinyddol ynghlwm wrth y dasg o droi Genefa o fod yn drefn gyn-Gatholig yn fod yn gymuned drefol i'r Diwygiad fel nad oedd modd rhyddhau gŵr oedd mor naturiol drefnus â Calfin o dasgau busnes ymarferol.


Gyda Farel, yn yr 'Erthyglau ar Drefniadaeth yr Eglwys a'i Haddoli yn ninas Genefa' ym mis Ionawr 1537, cynigiodd Calfin, oedd wedi esgyn yn gyflym i weinidogaeth fugeiliol yr Eglwys, i gyngor llywodraethu'r weriniaeth y dylid cyflwyno Cyffesiad Diwygiedig o Ffydd oedd yn rhwymo'r holl ddinasyddion, ynghyd â disgyblaeth foesol biwritanaidd drwy gymdeithas Genefa gyfan, system oedd yn cynnwys defnydd rhydd o esgymuno ar gyfer troseddwyr athrawiaethol a moesol. Eto roedd gormod o botensial yn yr ordinhadau hyn i greu gwrthdaro rhwng yr Eglwys a'r wladwriaeth – gwladwriaeth a oedd yng Ngenefa yn dal i ystwytho cyhyrau ifanc annibynniaeth ddiweddar. Arweiniodd adlach gan y dinasyddion yn erbyn yr hyn yr honnwyd oedd yn unbennaeth eglwysig dan arweiniad dau fewnfudwr tramor, Farel a Calfin, at ethol Cyngor gwrth-Galfin newydd ym mis Chwefror 1538. Arweiniodd dadl ddilynol dros reolaeth esgymuno at alltudio'r diwygwyr Ffrengig yn sydyn ar ôl y Pasg 1538. Roedd yn ymddangos fod gyrfa Calfin yng Ngenefa ar ben.

O leiaf roedd Calfin nawr yn gallu mynd i Strassburg, ac yn wir ymgartrefu yno fel gweinidog i alltudion Ffrengig, mewn amgylchedd hynod ddymunol: yn hytrach na gorfod creu Diwygiad dinesig, canfu Calfin ddinas oedd eisoes, yn y degawd blaenorol, wedi mabwysiadu platfform o newid crefyddol ysgubol dan arweiniad cadarn Martin Bützer (1491-1551). Ac yn Strassburg wynebai Calfin nid gwrthwynebwyr anhydrin, amheus oedd yn wrth-glerigwyr senoffobig, ond cydwladwyr Ffrengig – a chyd-alltudion yn y ffydd – yn gwbl ymrwymedig i'w egwyddorion crefyddol. Roedd ei waith ar ran y gynulleidfa o tua 400 yn caniatáu iddo dreulio amser ar ei astudiaethau, a chyhoeddi ail argraffiad, wedi'i ehangu'n fawr, o'r *Institutio* Lladin (1539) a fersiwn Ffrangeg (1541), gyda'r olaf yn garreg filltir enfawr yn hanes llenyddiaeth Ffrangeg oherwydd ei fod, am y tro cyntaf yn dangos bod yr iaith yn gwbl ymatebol i ofynion llym cydlyniad diwinyddol a meddwl haniaethol. Ym 1540 priododd Calfin, a dechreuodd ddod i'r amlwg fel gweithredwr blaenllaw yn y mudiad Protestannaidd rhyngwladol: fe ddaeth yn gyfaill i ail arloeswr Lutheriaeth, Philip Melanchthon (1497-1560), bu'n rhan o drafodaethau uno (aflwyddiannus) gyda chynrychiolwyr y Catholigion, a gweithredodd fel brocer mewn anghydfodau athrawiaethol (dros

yr ewcharist) rhwng Eglwysi Protestannaidd y Swistir a'r Almaen.

## Y Ddinas ar y Bryn – Genefa unwaith eto

Roedd elfen yng ngwneuthuriad Calfin oedd yn debyg i ffigur beiblaidd yr ymgodymwr, roedd yn ŵr nad oedd yn ymlacio'n rhwydd. Efallai mai oherwydd bod Genefa yn galw arno i ddychwelyd at lwybr caregog o drafferthion y llwyddodd yr alwad arno i ddychwelyd. Yn ystod ei absenoldeb, roedd dinas dreisgar, doredig a mympwyol ardal Savoy wedi disgyn bron at anarchiaeth, gan ddod i uchafbwynt gyda llofruddio a dienyddio o fewn dosbarth gwleidyddol traddodiadol y weriniaeth; roedd yno hefyd drafferthion diplomatig gyda phrif noddwr annibyniaeth Genefa, dinas Berne yn y Swistir. Ac o ran crefydd, roedd posibilrwydd y câi'r Diwygiad Genefaidd ei wrthdroi'n llwyr. Ym mis Mawrth 1539 clywodd y cyngor llywodraethol apêl lawn perswâd gan glerigwr Catholig hŷn cymedrol, y Cardinal Jacopo Sadoleto (1477-1547), a ddadleuai y dylai'r ddinas ddychwelyd at freichiau ei mam sanctaidd, Eglwys Rufain. Yr hyn sy'n ddiddorol serch hynny yw nid yn unig bod Calfin wedi derbyn gwahoddiad i ymateb i lythyr Sadoleto i gyngor a Phobl Genefa, ond iddo yntau ysgrifennu at y Cardinal ei hun fod 'Duw, pan roddodd cyfrifoldeb [Eglwys Genefa] i mi, wedi fy rhwymo i fod yn ffyddlon iddi am byth'. Roedd synnwyr John Calfin o'r fath gomisiwn tragwyddol yn golygu y byddai unrhyw un a fyddai'n rhoi pwysau arno i ddychwelyd i'r ddinas yn pwyso yn erbyn drws agored. Doedd hynny ddim am fod ail gyfnod o wasanaeth yng Ngenefa yn debygol o fod yn haws na'r cyntaf – ni allai beidio â 'chrynu mewn arswyd pan geir posibilrwydd y caf fy ngalw'n ôl' – ond am fod y weriniaeth yn gwpan na fyddai'n pasio, yn Angerdd, ac fel y dywedodd ei hun, yn 'aberth': 'y groes honno yr oedd rhaid i mi ddarfod arni'n ddyddiol fil gwaith ar ôl ei gilydd'. Yn dilyn




The Granger Collection / TopFoto

*Torlun pren cyfoes o Calvin yn pregethu i'w gynulleidfa yng Nghenefa*

trafodaethau dolurus, ym mis Medi 1541 dychwelodd y gweinidog at ei ofalaeth: gellid hyd yn oed darllen y llw a dyngodd i fod ' yn dragwyddol was i Genefa' fel mynegiant o'i barodrwydd amharod i ysgwyddo croes y taeog dioddefus.

I ryw raddau serch hynny – ac am fod pobl Genefa wedi'u gorfodi i'w ail-alw – roedd y gwas erbyn hyn yn fwy o feistr nag yn ystod ei gyfnod cyntaf o wasanaeth. Y tro hwn derbyniwyd ei siarter diwygio, a elwid yr Ordinhadau Eglwysig. Roedd yr Ordinhadau'n rhoi system o lywodraeth eglwysig i'r ddinas, gyda gweinidogion bugeiliol, henaduriaid yn cynnal disgyblaeth a diaconiaid yn gyfrifol am elusen, yr honnai Calfin fod y Testament Newydd yn ei dilysu. Roedd y ddinas bellach hefyd yn gynyddol yn dangos symptomau 'cymdeithas gaeedig', gwladwriaeth heddlu moesol, Collège Montaigu ar lan llyn godidog – er nad hon o bell oedd yr unig gymdeithas yn Ewrop cynnar, boed Gatholig neu Brotestannaidd, oedd yn ceisio pennu bywydau preifat ei deiliaid.

Roedd y gwrthwynebiad a welwyd cyn 1541 i Calfin ymhell o fod wedi'i orchfygu, a rhwng canol y 1540au a chanol y 1550au, wynebai aflonyddwch parhaol gan garfan dan arweiniad aelod o deulu uchelwrol, Ami Perrin, a drefnai'r gwrthwynebiad i'w ddyrchafiad. Fodd bynnag nid drwy edrych yn ôl yn unig y gallwn ni daflu'r gwrthwynebiad gwrth-Galifin i un o gasgliadau ysbwriel hanes. Yn un peth, roedd amgylchiadau alltudiaeth flaenorol John Calfin a'r ffaith iddo gael ei alw'n ôl yn rhoi llaw uchaf hiroesol iddo: byddai bygythiad syml i adael eto yn tawelu gwrthwynebiad yn rhwydd. Ffactor arall a gyfrannodd at ei ddyrchafiad yn y pen draw oedd lleoliad y ddinas. Roedd Genefa yn sefyll ar groesffordd Ewrop, ar ffin Ffrainc, taith fer dros y llyn i'r Swistir, ac o fewn tafliad carreg i'r Eidal. Nid yn unig oedd hyn yn golygu bod y ddinas yn saeth genhadol, yn enwedig i mewn i Ffrainc, ar gyfer efengyl Calfin, ond hefyd daeth yn fagnet i wir gredinwyr o'r tiroedd cyfagos. Wrth i'r rhain sicrhau dinasyddiaeth a hawliau pleidleisio yn raddol, gan ategu'r bobl frodorol hynny o Genefa oedd wedi tyfu i fyny dan athrawiaeth Calfin ac oedd yn tueddu i weld ei bresenoldeb fel rhan o'r drefn naturiol, llwyddodd achos y Diwygiwr i fynd ar y blaen

mewn etholiadau. Yn etholiadau'r Cyngor ym mis Chwefror 1555 disodlwyd grwpiau Perrin, ac arweiniodd methiant Perrin â chipio grym iddo yntau gael ei alltudio ac at fuddugoliaeth wleidyddol sicr i Calfin.

Roedd ffactor arall yn y cefndir yn cryfhau gafael John Calfin: fel dinas oedd yn fagnet rhyngwladol, roedd Genefa yn denu nid yn unig y rhai oedd yn deyrngar i'r achos ond hefyd anghydffurfwyr a radicaliaid, a thrwy eu trechu dro ar ôl tro, cryfhawyd grym Calfin ymhellach. Yn annoeth ddigon, ym 1553, daeth un o'r rhain, y meddyg o Sbaen Michael Servetus (1511-53), a wrthodai athrawiaeth allweddol Cristnogaeth, sef Trindod y tri pherson mewn un Duw, i'r ddinas, i geisio cefnogaeth y grŵp gwrth-Galfin. Rhoddodd Calfin ef ar brawf, ac arweiniodd y modd y cynhaliwyd yr achos, gyda dienyddio Servetus yn greulon yn benllanw iddo, at osod y Diwygiwr yn rôl amddiffynnydd uniongrededd Cristnogol sefydledig.

Parhaodd bywyd Calfin fel pregethwr, gweinidog, awdur, deddfwr ac addysgwr ar hyd ei rigol hynod ddiwyd, a pharhâi'r *Institutio* i ymddangos, gydag argraffiadau newydd ym 1543, 1545, 1553, 1554 a 1559. Bu hefyd yn gweithio fel rhyw fath o ymgynghorydd efengylaidd rhyngwladol – roedd yr ysgolhaig tawel bellach yn un o ddynion mwyaf dylanwadol hanes.

## Materion i'w Trafod

- Pa nodweddion personol sydd i'w gweld ym mywyd a gyrfa Calfin?
- Beth sy'n arbennig am ddiwinyddiaeth Calfin?
- Pam fu ail arhosiad Calfin yng Ngenefa gymaint yn fwy llwyddiannus na'r cyntaf?

## Darllen Pellach

Yr astudiaeth orau o'r Diwygiad cyfan a rhan Calfin ynddo yw Diarmuid MacCulloch, *Reformation Europe's House Divided 1490-1700* (Allen Lane, 2003). Ceir cyflwyniad cryno yn Michael Mullett, *Calvin* (Routledge Lancaster Pamphlets, 1989). Yn *John Calvin, A Sixteenth-Century Portrait* (Oxford University Press, 1988) mae William J. Bouwsma wedi llunio hanes bywyd hynod o ddarllenadwy a threiddgar.

*Michael A. Mullet yw Athro Hanes Diwylliannol a Chrefyddol Prifysgol Caerhirfryn.*

Addaswyd ac atgynhyrchwyd gyda chaniatâd History Today Ltd. o *History Today*, Mawrth 2008: *John Calvin: the Making of a Reformer*, Michael Mullett.

Gwnaethpwyd pob ymdrech i olrhain a chydnabod deiliaid hawlfraint. Bydd y cyhoeddwr yn falch o wneud trefniadau addas gydag unrhyw ddeiliaid na lwyddwyd i gysylltu â hwy.

Cyfieithydd: Catrin Beard
Golygydd: Lynwen Rees Jones
Dylunydd: Richard Huw Pritchard